**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (120)**
**Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

Y Cwestiynau

.......................................

## Eitem 2

**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

Y Cwestiynau

.......................................

## Eitem 3

**Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd ar ei chyfrifoldebau heblaw am fusnes**

**Y Cwestiynau**

.......................................

**Eitem 4**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Strategaeth Lleoliad.**

......................................

**Eitem 5**

**Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y strategaeth Bobol Hyn.**

......................................

**Eitem 6**

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 i Brif Weinidog Cymru**

**NDM2303 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo'r holl swyddogaethau a drosglwyddwyd iddo trwy rinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (OS 2004 Rhif 3044), i Brif Weinidog Cymru, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

*Gellir gweld copi o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 ar y rhyngrwyd trwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol:*
*http://www.hmso.gov.uk/cgi-bin/htm_hl.pl?DB=hmsonew&STEMMER=en&WORDS=2004+3044+&COLOUR=Red&STYLE=s&URL=http://www.hmso.gov.uk/si/si2004/20043044.htm#muscat_highlighter_first_match*

......................................

**Eitem 7**

**Dadl wedi'i henwebu gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**NDM2302 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno cynllun erbyn 9 Mawrth 2005 i'r Cynulliad hwn yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i ddod â'r argyfwng mewn adrannau damweiniau ac achosion brys i ben.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
***Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:***

***(1)***
***(2)***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl "Cymru:" a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod bod yr argyfwng presennol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn symptom o'r ffaith na lwyddwyd i fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol o fewn y GIG.

2. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog i gyflwyno cynllun strategol cenedlaethol ar gyfer y GIG yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn llongyfarch staff Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Prifysgol Cymru am eu gwaith caled er gwaethaf y problemau sy'n parhau.

**......................................**

## Eitem 8

**Y ddadl fer**

Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd): *Dim Testun wedi'i Gyflwyno*

**.......................................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 1 Mawrth 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**